Ysbyty Gwynedd

# Adran Achosion Brys

**Yn dod â'ch diweddariad misol ar y gwaith gwella yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd**



## Yn y rhifyn hwn:


Dyluniadau Josie Russell yn llonni ein Hadran Achosion Brys

Ystafell dadlygru newydd

Staff yr Adran Achosion Brys yn dechrau eu hyfforddiant dementia

Adroddiad Rheolwr Safle

# Dyluniadau Josie Russell yn llonni ein Hadran Achosion Brys

Mae delweddau hardd o dirweddau cyfarwydd bellach yn harddu muriau Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd, diolch i Josie Russell, yr artist tecstilau.
Josie, sy'n enwog am ei dyluniadau unigryw, yw'r artist cyntaf i roi ei gwaith i'w ddefnyddio ar furiau'r Adran Achosion Brys.
Mae'r artist talentog wedi rhoi ei delweddau'n garedig i'w defnyddio fel rhan o brosiect celf i helpu creu amgylchedd mwy croesawus i gleifion ac ymwelwyr.
Meddai: "Roedd hi'n wych ymweld â'r Adran Achosion Brys a gweld fy nghynlluniau ar wal y man aros newydd.
"Rwy'n creu fy ngwaith tecstilau gan ddefnyddio amrywiol ddefnyddiau, felly hwn oedd y tro cyntaf i mi weld fy nghynlluniau ar drosluniau wal finyl, a gadawodd hyn argraff arnaf!"
Dywedodd Josie, sy'n arddangos ei gwaith mewn sawl galeri yn yr ardal, ei bod yn falch o gael cyfrannu tuag at rywbeth i lonni'r man aros newydd yn yr adran.
"Rwyf bob amser yn hoffi helpu fy nghymuned leol os gallaf, ac mae'n braf iawn gweld bod y delweddau wedi helpu i ddod â mwy o liw i fan aros yr adran.
"Mi fydd yn braf i'r rhai sy'n aros i gael triniaeth allu gweld golygfeydd cyfarwydd a gobeithio bydd hyn yn tynnu eu sylw oddi ar bethau eraill." meddai.
Cyllidwyd y prosiect celf hwn drwy rodd garedig iawn o £12,756.00 gan yr Awyrlu yn y Fali (RAF). Bydd y rhodd, a roddwyd i Awyr Las, Elusen GIG Gogledd Cymru, hefyd yn cefnogi cadeiriau lledorwedd i'n cleifion sy'n byw gyda dementia.
Meddai Meinir Williams, Cyfarwyddwr Ysbyty: "Hoffem ddiolch i Josie am ei chaniatâd i ddefnyddio'i delweddau hardd i helpu llonni ein man aros newydd yn yr adran.
"Mae hi'n dalentog dros ben ac yn ferch ysbrydoledig, ac rydym yn falch iawn o gael ei gwaith ar ein muriau."
Hoffai'r Adran Achosion Brys ddefnyddio delweddau digidol o waith artistiaid lleol a ysbrydolwyd gan leoliadau ar draws y rhanbarth. Os ydych yn artist lleol a hoffai gyfrannu delweddau i'w hystyried, neu os hoffech wybodaeth bellach ynghylch y prosiect celf yn yr Adran Achosion Brys, cysylltwch am fwy o wybodaeth drwy e-bostio kathryn.cummings2@wales.nhs.uk





## Drosodd i chi...

Rydym bob amser yn falch o gael adborth am Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd a'n gwasanaethau. Dyma enghraifft o rai o'r pethau y mae unigolion wedi dweud wrthym.

"Gofalwyd am fy mab yn dda iawn - cefais argraff dda iawn o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd."

"Staff rhagorol! Cyfeillgar a chynorthwyol!"

"Derbyniwyd gwasanaeth o'r radd flaenaf drwy'r Adran Achosion Brys ar gyfer fy merch a oedd wedi torri ei harddwn."

# Ystafell dadlygru newydd

Mae ystafell dad-lygru newydd wedi'i hadeiladu fel rhan o'r gwelliannau a fydd yn cael ei ddefnyddio os bydd unrhyw gleifion sydd wedi cael cyswllt â chyfrwng cemegol yn mynychu'r Adran Achosion Brys

Profwyd y drefn hon yn ddiweddar yn yr ystafell newydd lle creodd staff 'senario go iawn' i ymarfer eu hyfforddiant!








# Adroddiad Iwan Lewis, rheolwr y safle

Mae gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda iawn ar hyn o bryd yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd.
Fel rhan o Gam 2 rydym yn ddiweddar wedi cwblhau'r lloriau ar gyfer yr Uned Uwch Adrannau Clinigol a swyddfeydd ac wedi symud ymlaen â'r gosodiadau cyntaf, rhaniad mewnol a pheirianneg fecanyddol.

Interserve
Ingenuity at work








# Staff yr Adran Achosion Brys yn dechrau eu hyfforddiant dementia

Mae staff o'r Adran Achosion Brys wedi cael hyfforddiant dementia i sicrhau eu bod yn gallu cynnig y gofal gorau i unigolion â dementia sy'n ymweld â'n hadran.
Hefyd cafwyd ymweliad gan ymgyrchydd arweiniol dementia, Chris Roberts, 57, a gafodd ddiagnosis o ddementia fasgwlaidd a chlefyd Alzheimers pan oedd yn 51 mlwydd oed.
Mae wedi rhoi ei gefnogaeth i Strategaeth Dementia newydd sydd wedi'i datblygu gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a gafodd ei lansio yn ystod mis Mai.
Mae'n amlinellu sut bydd BIPBC yn adeiladu ar gynnydd a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf i wella profiadau'r holl bobl sy'n byw gyda dementia sy'n cael mynediad at wasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru.
Bydd y cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith yn ein Adran Achosion Brys a bydd staff yn anelu i adnabod yr unigolion hynny sy'n hynod bryderus, ofidus neu ofnus yn yr adran a rhoi blaenoriaeth i'w gofal.



